Cofnodion Panel Darparwyr
14 Ionawr 2009 - 1.30yp
Ystafell Madog, Coleg Llandrillo

Presennol: Elwyn Hughes, Prifysgol Bangor (Cadeirydd)
Mair Jones, Coleg Harlech CAG; Caroline Williams, Coleg Meirion Dwyfor;
David Jones, Prifysgol Glyndŵr; Frances Jones, Popeth Cymraeg;
Howard Edwards, Popeth Cymraeg; David Hedley Williams, Nant Gwrtheyrn;
Liz Williams, Coleg Glannau Dyfrdwy; Rhian McCarthy, Coleg Llandrillo;
Dona Padan, Coleg Llysfasi; Jane Watkin, Coleg Llysfasi; Ann Rhian Hughes, Coleg Menai;
Ifor Gruffydd, Canolfan Cymraeg i Oedolion; Haydn Hughes, Canolfan Cymraeg i Oedolion;
Siwan Hywel, Canolfan Cymraeg i Oedolion; Siân Eirian, Canolfan Cymraeg i Oedolion
Gary Smith, Canolfan Cymraeg i Oedolion; Ceri Llwyd, Canolfan Cymraeg i Oedolion;
Elliw Ellis-Davies, Cwmni Atom PR

1. Croeso ac Ymddiheuriadau

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y cadeirydd Elwyn Hughes

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan:
Dafydd Rhys, Coleg Harlech CAG; Llinos Hicks, Coleg Harlech CAG;
Ifan Prys, Nant Gwrtheyrn; Ioan Talfryn, Popeth Cymraeg; Myfi Brier, Coleg Llysfasi;
Catrin Keller, Coleg Llandrillo; Sharon Owen, Coleg Menai; Pam Evans-Hughes; Canolfan Cymraeg i Oedolion; Jina Gwyrfai, Canolfan Cymraeg i Oedolion; Luned Ainsley, Coleg Iâl

2. Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Hydref 2008

Cyflwynwyd a chadarnhawyd y cofnodion diwethaf fel rhai cywir.

3. Materion yn codi

- Adroddiad y Cyfarwyddwr - Eglurwyd fod oedi wrth weithredu'r gronfa hon oherwydd y goblygiadau gweinyddu sylweddol sydd ynghlwm wrthi. Mae trafodaethau yn parhau gyda phartneriaid gyda golwg ar sicrhau trefniadau i weinyddu'r gronfa ar ran y Ganolfan
- Adroddiad y Cyfarwyddwr - Adroddwyd fod cais am gyllid o'r gronfa ar gyfer dysgwyr gydag anawsterau dysgu ac anableddau wedi ei gyflwyno ond ein bod yn dal i ddisgwyl ymateb iddo
- Cymraeg yn y Gweithle - Atgoffwyd darparwyr, nad oedd wedi ymateb hyd yma, o'r angen i gyflwyno gwybodaeth am gyfraddau cyrsiau yn y gweithle er mwyn cynorthwyo'r Ganolfan i hyrwyddo'r cyrsiau ac arwain at gysondeb mewn ffioedd maes o law
- Prosiect Oriel Ynys Môn – adroddwyd fod y gwaith paratoi yn parhau a'r bwriad yw cwblhau'r cais a'i gyflwyno i sylw'r Panel Adnoddau yn y dyfodol agos
- Cyhoeddusrwydd - Adroddwyd fod noddi ymadrodd y dydd ar radio lleol y gogledd yn parhau. Bydd y cytundeb yn cael ei adolygu ar ddiwedd y cynllun er mwyn penderfynu a fydd y cynllun yn cael ei ymestyn
- Hyfforddiant – Atgoffwyd darparwyr, nad oedd wedi ymateb hyd yma, i roi gwybod i'r Ganolfan am hyfforddiant a ddarparwyd yn fewnol ganddynt i'w tiwtoriaid rhwng 1 Medi a 31 Rhagfyr 2008

4. Adroddiad y Cyfarwyddwr

Cyflwynwyd yr adroddiad gan ddwyn sylw penodol i'r canlynol:

- Cynllunio Darpariaeth - Bydd y Swyddogion Datblygu yn cysylltu â phob darparwr unwaith yn rhagor er mwyn cwblhau rhaglenni darpariaeth 2009/2010. Cafwyd cyflwyniad gan Gary Smith ar feddalwedd sydd wedi ei ddatblygu er mwyn hwyluso'r drafodaeth hon.
- Hyfforddiant Cymraeg yn y Gweithle - cyflwynwyd crynodeb o brosiect sydd wedi ei gynnal i ymchwilio i sut y cynllunnir ac y cyflwynir hyfforddiant iaith yn y sector cyhoeddus. Nodwyd y cyflwynir crynodeb o'r canfyddiadau i'r Grŵp Strategol nesaf

5. Adroddiad y Swyddogion Datblygu

Yn absenoldeb JG a PEH cyflwynodd IG yr adroddiad hwn. Nodwyd y prif faterion a oedd angen sylw fel a ganlyn:

- Cynllunio Darpariaeth – fel yn 2. uchod (cyfunwyd yr eitemau)
- Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang – nodwyd fod hwn yn faes a hyrwyddir gan APADGOS a bydd y Swyddogion Datblygu yn cynnig enghreifftiau o arfer da i ddarparwyr, sydd yn berthnasol i'r ddarpariaeth CiO
- Grwpiau Ffocws - nodwyd, gan y bydd adborth dysgwyr yn datblygu'n fwyfwy pwysig yn y cyfundrefnau ansawdd, y bydd y Ganolfan yn edrych ar Grwpiau Ffocws fel modd o gasglu gwybodaeth bwysig gan ddysgwyr. Nid yw'n fwriad i ddyblygu gwaith a wneir eisoes gan ddarparwyr gyda Grwpiau Ffocws
- Cymraeg i'r Teulu – adroddwyd ar y cyrsiau Twf a Hwyl i'r Teulu sydd wedi cael eu datblygu a bod bwriad ymestyn y rhain yn 2009/2010. Nodwyd hefyd fod prosiect ar y gweill i ail lunio cyrsiau Cymraeg i Rieni Coleg Harlech/CAG a bod trafodaethau cenedlaethol yn cael eu cynnal er mwyn sicrhau adnoddau priodol i'r fenter
- Adroddwyd fod gwasanaeth ymgynghorol ar gael gan y Ganolfan i weithleoedd er mwyn cynllunio a chynnig darpariaeth yn y modd mwyaf effeithiol. Mae ymgynghoriadau wedi dechrau a'r gobaith yw y bydd yn arwain at hyfforddiant mwy pwrpasol a rhagor o waith i ddarparwyr. Cydnabuwyd fodd bynnag, mai proses raddol yw hon, ac na fydd newidiadau enfawr i'w gweld dros nos

6. Dysgu Anffurfiol

Cyflwynwyd adroddiad llafar gan SH gan ddwyn sylw i'r prif faterion canlynol:

- Panelau Dysgu Anffurfiol – bellach, mae cyfarfodydd cadarnhaol wedi cael eu cynnal gyda phob un o'r tri Phanel Dysgu Anffurfiol, sef Gwynedd a Môn, Dinbych a Chonwy, a Wrecsam a Fflint. Roedd y cyfarfodydd yn cynnwys cynrychiolwyr o blith y Darparwyr, Mentrau Iaith, Mudiad Ysgolion Meithrin, TWF, ATOM PR, a Merched y Wawr. Y nod yw rhannu gwybodaeth, arfer da a thrafod bylchau amlwg sydd yn y ddarpariaeth dysgu anffurfiol.
- Digwyddiadau ac oriau cyswllt - O Awst i Ragfyr 2008 cynhaliwyd dros 396 o ddigwyddiadau gyda 854 o oriau cyswllt. Digwyddiadau yn ôl pob sir: Sir Y Fflint - 133, Ynys Môn – 86, Sir Wrecsam – 66, Gwynedd – 54, Conwy – 49, Sir Ddinbych – 8, Mae hyn yn dilyn sefydlu clybiau llwyddiannus megis C³ gan PCB, Clwb Llanllawen gan Lysfasi, a'r Mentrau Iaith.
- Gweithgareddau newydd - Cynhelir Eisteddfod Dysgwyr y Dwyrain ar Chwefror 27ain yn Theatr John Ambrose, Rhuthun. Gobeithir trefnu Eisteddfod ar gyfer dysgwyr y Gorllewin ym mis Mai. Mae sesiynau siarad eisoes wedi cychwyn ym Mhwllheli a Bethesda a thrafodaethau wedi eu cynnal gyda grŵp o Gymry Cymraeg yn y Felinheli er mwyn eu cynorthwyo i sefydlu sesiynau sgwrsio yn Y Felin Sgwrsio.
- Nodwyd hefyd fod gwaith yn mynd rhagddo gyda Phopeth Cymraeg a Choleg Glannau Dyfrdwy er mwyn sefydlu clwb ar gyfer dechreuwyr, a chyda Choleg Iâl a Phrifysgol Glyndŵr. Bwriedir creu clwb gyda Phrifysgol Bangor yn y gorllewin dros yr wythnosau nesaf.
- Amlygwyd nifer y digwyddiadau a'r oriau gan IG, a nododd fod y prosiect hwn dal i ganolbwyntio ar gydlynu beth sydd ar gael ar hyn o bryd a sefydlu cydweithrediad partneriaid. Erbyn diwedd y flwyddyn academaidd fodd bynnag bydd mwy o bwyslais ar greu a hwyluso digwyddiadau newydd ac mae rôl y darparwyr yn allweddol yn hyn o beth
- Cytunwyd i gylchredeg gwybodaeth am ddigwyddiadau ymysg darparwyr fel y gallant hwythau hefyd eu hyrwyddo ymysg dysgwyr

7. Hyfforddiant

Cyflwynodd HH adroddiad llafar ar y sefyllfa ddiweddaraf gyda materion hyfforddi gan ddwyn sylw penodol i'r canlynol:

- Cwrs 2007/2008 – mae'r rhai a fynychodd y cymhwyster yn 2008 bellach wedi cwblhau eu tasgau arholi ac asesu. Nodwyd fod cyfartaledd marciau'r gogledd (64%) yn uwch na'r un rhanbarth arall.
- Cymhwyster 2008/2009 - mae aelodau'r cymhwyster newydd wedi gorffen rhan 1 a bron iawn rhan 2 oni bai am yr ymarfer dysgu. Siomedig fu niferoedd y tiwtoriaid sydd wedi manteisio ar wahoddiad i fynychu sesiynau hyfforddi yn Llysfasi. Er hyn, mae'r sawl sydd wedi mentro mynychu unwaith wedi gweld eu gwerth ac wedi parhau i fynychu sesiynau eraill yn ogystal.
- Cymhwyster 2009/2010 - bydd recriwtio ar gyfer y cwrs nesaf yn dechrau yn fuan. Yn y gogledd, bydd y cwrs yn cael ei gynnig a'i gwblhau mewn blwyddyn, a hynny yng ngorllewin y rhanbarth y tro hwn (Bangor mae'n debyg). O ran recriwtio, bydd y Ganolfan yn targedu tiwtoriaid sydd wedi tanberfformio fel rhan o'r broses arsylwi. Mae'n fwriad cwblhau trafodaethau adeiladol gyda Phrifysgol Glyndŵr er mwyn trefnu bod y cymhwyster yn cyfateb i ran 1 TAR y Brifysgol (yn hytrach na TAR Prifysgol Casnewydd)
- Arholiadau CBAC - cafwyd adborth da gan y sawl fynychodd gwrs hyfforddiant Emyr Davies i'r arholiadau CBAC newydd ym mis Tachwedd,
- Cwrs Arsylwi - cynhaliwyd cwrs llwyddiannus iawn ar y cyd hefo canolfan y Canolbarth yn Llanbed a chwrs cyn arsylwi i diwtoriaid a gynhaliwyd ym Mangor a Than y Bwlch.
- Hyfforddiant Ôl-Asesu – bwriedir cynnig hyfforddiant pwrpasol i diwtoriaid yn dilyn pob cylch arsylwi
- Hyfforddiant i ddarpar-diwtoriaid - bydd 3 penwythnos ac ysgol haf i ddarpar-diwtoriaid.
- Cwrs i Diwtor-Drefnyddion yn yr haf – yr union gynnwys i'w benderfynu ar ôl gorffen asesu anghenion hyfforddi
- Tiwtor y Flwyddyn (NIACE) – anogwyd pawb i geisio sicrhau enwebiad tiwtor er mwyn rhoi rhywfaint o gydnabyddiaeth ffurfiol i waith caled tiwtoriaid y gogledd. Yn yr un modd, nodwyd fod gan NIACE gystadleuaeth Dysgwr y Flwyddyn, a rhoddwyd anogaeth yn yr un modd i enwebu dysgwr.
- Recriwtio Tiwtoriaid – cytunwyd y byddai'r Ganolfan yn cylchredeg gwybodaeth i bob darparwr am y rheiny sydd yn dilyn y cymhwyster eleni, fel bod modd eu defnyddio fel tiwtoriaid ar gyrsiau 2009/2010

8. Data

Cyflwynodd GS adroddiad llafar ar y sefyllfa ddiweddaraf gan nodi'r prif faterion canlynol:

- Nodwyd bod derbyn data misol gan bob darparwr – yn unol â'r dyddiadau sydd wedi eu cylchredeg, yn hanfodol, a gofynnwyd i aelodau'r Panel ymgynghori gyda'r cydweithwyr data er mwyn sicrhau y bydd hyn yn digwydd. Mae angen cyflwyno'r data nesaf erbyn 23 Ionawr 2009
- Mynegodd mai siomedig oedd canlyniadau mis Rhagfyr gan fod bylchau sylweddol yn y data. Tra fo rhesymau dilys am hynny mewn rhai achosion, nododd fod cael data cyflawn o hyn ymlaen, yn allweddol at ddibenion cyllido a chynllunio
- Eglurodd GS y broses cyfrifo WCEU gam wrth gam ar PowerPoint.

9. Cyhoeddusrwydd a Marchnata

Cafwyd cyflwyniad gan Elliw Ellis-Davies, Cwmni Atom PR, ar gefndir y cydweithio rhwng y Ganolfan a'i chwmni cyn symud ymlaen i drafod Pecyn Croeso arfaethedig APADGOS ar gyfer y dysgwyr.

Cafwyd trafodaeth ddefnyddiol ar werth y pecyn a'i gynnwys, ynghyd â sut gellid ei ddefnyddio. Cafwyd cytundeb y byddai ffolder, bag neu flwch wedi ei frandio, i ddal holl drugareddau cwrs CiO, yn fuddiol ond nad oedd angen cyffredinol am gynnwys y pecyn arfaethedig. Gan fod rhai agweddau yn cael eu gweld fel adnoddau defnyddiol gan rai

darparwyr, cytunwyd y byddai darparwyr yn rhannu gwybodaeth am y pecynnau croeso / llawlyfrau dysgwyr, fel modd hwylus a rhad o symud ymlaen.

Cyflwynodd GS wybodaeth am y datblygiadau diweddaraf gyda gwefan y Ganolfan. Bydd yn rhyddhau cyfeiriad y wefan ddrafft cyn hir er mwyn gwahodd sylwadau.

10. Materion i sylw'r Panel Adnoddau Cenedlaethol

Dim.

11. Digwyddiadau

- Iaith ar Waith, Coleg Llandrillo - 21 Ionawr 2009. - menter i normaleiddio'r Gymraeg ymysg myfyrwyr mewn meysydd galwedigaethol amrywiol

12. U.F.A.

Dim.

13. Dyddiad y cyfarfod nesaf

Dydd Mercher 25 Mawrth 2009 yn ystafell Madog, Coleg Llandrillo am 1.30 yp.

14 January 2009 - 1.30pm
Madog Room, Coleg Llandrillo

Present: Elwyn Hughes, Bangor University (Chair)
Mair Jones, Coleg Harlech WEA; Caroline Williams, Coleg Meirion Dwyfor;
David Jones, Glyndŵr University; Frances Jones, Popeth Cymraeg;
Howard Edwards, Popeth Cymraeg; David Hedley Williams, Nant Gwrtheyrn;
Liz Williams, Coleg Glannau Dyfrdwy; Rhian McCarthy, Coleg Llandrillo;
Dona Padan, Coleg Llysfasi; Jane Watkin, Coleg Llysfasi; Ann Rhian Hughes, Coleg Menai;
Ifor Gruffydd, Welsh for Adults Centre; Haydn Hughes, Welsh for Adults Centre;
Siwan Hywel, Welsh for Adults Centre; Siân Eirian, Welsh for Adults Centre;
Gary Smith, Welsh for Adults Centre; Ceri Llwyd, Welsh for Adults Centre;
Elliw Ellis-Davies, Atom PR Company

2. Welcome and Apologies

Elwyn Hughes, the Chair, welcomed everyone to the meeting.

Apologies were received from:
Dafydd Rhys, Coleg Harlech CAG; Llinos Hicks, Coleg Harlech CAG;
Ifan Prys, Nant Gwrtheyrn; Ioan Talfryn, Popeth Cymraeg; Myfi Brier, Coleg Llysfasi;
Catrin Keller, Coleg Llandrillo; Sharon Owen, Coleg Menai; Pam Evans-Hughes; Welsh for Adults Centre; Jina Gwyrfai, Welsh for Adults Centre; Luned Ainsley, Coleg Iâl

2. The minutes of the meeting held on 15 October 2008 were confirmed.

The minutes of the last meeting were presented and accepted as correct.

3. Matters arising

- Director's Report – It was explained that there had been a delay in implementing this fund due to the considerable administrative implications related to it. Discussions are ongoing with partners with a view to securing arrangements for the fund to be administered on the Centre's behalf.
- Director's Report – It was reported that an application had been submitted for finance from the fund for learners with learning difficulties and disabilities but a response was still being awaited.
- Welsh in the Workplace – Providers, who had not yet responded, were reminded of the need to present information about workplace course rates in order to assist the Centre in promoting the courses and to lead to fee compatibility in due course.
- Oriel Ynys Môn project – it was reported that the preparatory work is ongoing and it is intended to complete the bid and present it to the attention of the Resource Panel in the near future.
- Publicity – It was reported that sponsoring the phrase for the day on the North Wales local radio was continuing. The agreement will be reviewed at the end of the scheme in order to decide if the scheme should be extended.
- Training – Providers, who had not yet responded, were reminded to inform the Centre about training that was internally provided by them for their tutors between 1 September and 31 December 2008.

4. Director's Report

The report was presented drawing specific attention to the following:

- Provision planning – The Development Officers will contact every provider once again to finalise the 2009/2010 provision programmes. A presentation was given by Gary Smith on the software that has been developed to facilitate this discussion.
- Welsh in the workplace training – a summary was presented of a project held to research into the way language training is planned and presented in the public sector. It was noted that a summary of the findings will be presented to the next Strategic Group.

5. Development Officers' Reports

In the absence of JG and PEH, IG presented this report. The main issues that required attention were identified as follows:

- Provision Planning – as in 2. above (the items were combined)
- Education for Sustainable Development and Global Citizenship – it was stated that this is an area that is promoted by DCELLS and the Development Officers will offer examples of good practice to providers, that are relevant to the WFA provision
- Focus Groups – it was stated, as learner feedback will become increasingly important in the quality systems, the Centre will look to Focus Groups as a means of gathering important information from learners. The intention is not to duplicate work that is already being carried out by providers with Focus Groups.
- Welsh for the Family – a report was given on the Twf and Fun for the Family courses that have been developed and it was said that it is intended that these should be extended in 2009/2010. It was also stated that a project is in hand to redesign Coleg Harlech/WEA Welsh for Parents courses and that discussions are taking place at a national level in order to secure appropriate resources for this initiative.
- It was reported that there is an advisory service available to workplaces from the Centre in order to plan and offer provision in the most effective way possible. Consultations have begun and it is hoped it will lead to more appropriate training and more work for providers. It was acknowledged, however, that this is a slow process, and that huge changes may not be seen overnight.

6. Informal Learning

A verbal report was presented by SH drawing attention to the following main issues:

- Informal Learning Panels – positive meetings have now been held with each of the three Informal Learning Panels, that is Gwynedd and Anglesey, Denbigh and Conway, and Wrexham and Flint. The meetings included representatives from amongst the providers, Mentrau Iaith, Mudiad Ysgolion Meithrin, TWF, ATOM PR, and Merched y Wawr. The aim is to share information and good practice and to discuss the obvious gaps that exist in the informal learning provision.
- Events and contact hours - from August to December 2008 over 396 events were held with 854 contact hours. The events according to county: Flintshire -133, Anglesey – 86, Wrexham – 66, Gwynedd – 54, Conwy – 49, Denbighshire – 8. This follows the setting up of successful clubs such as C³ by UWB, Clwb Llanllawen by Llysfasi, and the Mentrau Iaith.
- New Activities – East Wales Learners Eisteddfod will be held on 27th February in the John Ambrose Theatre, Ruthin. It is hoped an Eisteddfod may be arranged for West Wales learners in May. Conversation sessions have already begun in Pwllheli and Bethesda and discussions have been held with a group of Welsh speaking Welsh people in Port Dinorwic in order to assist them to establish conversation sessions in Y Felin Sgwrsio.
- It was also stated that work is progressing with Popeth Cymraeg and Coleg Glannau Dyfrdwy in order to establish a club for beginners, and with Coleg Iâl and Glyndŵr University. It is intended to form a club with Bangor University in the west over the coming weeks.
- The number of events and hours was highlighted by IG, and he stated that this project is continuing to focus on coordinating what is currently available and establishing co-operation from partners. By the end of the academic year, however, there will be more emphasis on creating and facilitating new events and the providers' role is key in this matter.
- It was agreed to circulate information about events amongst providers so that they too can promote them amongst learners,

7. Training

HH presented a verbal report on the latest situation with regard to training issues drawing particular attention to the following:

- The 2007/2008 course – those who studied for this qualification in 2008 have now completed their examination and assessment tasks. It was stated that the North Wales average mark (64%) was higher than other regions.
- The 2008/2009 qualification – members of the new qualification have completed part 1 and almost completed part 2 apart from the teaching practice. The number of tutors that have taken advantage of the invitation to attend training sessions in Llysfasi has been disappointing. Nevertheless, those that have ventured to attend once have seen their value and have continued to attend other sessions as well.
- The 2009/2010 qualification – recruitment for the next course will commence shortly. In North Wales, the course will be offered and completed in one year, and it will be in the west of the region this time (Bangor, probably). From the point of view of recruitment, the Centre will target tutors who have underperformed as part of the observation process. It is intended to complete constructive discussions with Glyndwr University in order to arrange that the qualification corresponds to the University's PGCE (rather than Newport University PGCE).
- WJEC Examinations – good feedback was obtained from those who attended Emyr Davies' training course on the new WJEC examinations in November,
- Observation Course – a very successful course was held jointly with the Mid-Wales region at Lampeter and a pre-observation course for tutors was held at Bangor and Tan y Bwlch.
- Post-assessment Course – it is intended to offer appropriate training to tutors following each observation round.
- Training for potential tutors – there will be 3 weekends and a summer school for potential tutors.
- A course for Tutor-organisers in the summer – the precise content to be determined when the assessment of training needs has been completed.
- Tutor of the Year (NIACE) – everyone was encouraged to attempt to secure a tutor nomination in order to give some formal acknowledgement to the hard work of the North Wales tutors. Likewise it was stated that NIACE has a Learner of the Year competition, and similar encouragement was given to nominate a learner.
- Tutor Recruitment – it was agreed that the Centre would circulate information to every provider about those who are studying for the qualification this year, so that they may be used as tutors on 2009/2010 courses.

8. Data

GS presented a verbal report on the latest situation drawing attention to the following main issues:

- It was stated that it was essential that monthly data be received from each provider – in accordance with the dates which have been circulated, and Panel members were asked to consult with data colleagues in order to ensure this takes place. The next set of data will need to be presented by 23 January 2009
- He stated that the December results were disappointing as there were significant gaps in the data. While there may be valid reasons for this in some cases, he stated that the possession of complete data from now on will be vital for financial and planning purposes.
- GS explained the WCEU accounting process step by step on PowerPoint.

9. Publicity and Marketing

A presentation was given by Elliw Ellis-Davies, Atom PR Company, on the background to the partnership working between the Centre and her company before she went on to discuss DCELLS' proposed welcome pack for learners.

A useful discussion was had on the value of the pack and its contents, together with the way in which it could be used. It was agreed that a branded folder, bag or box would be useful to hold all the WfA course materials, but that there was not a general need for the

content of the proposed pack. Because some aspects were seen as useful resources by some providers, it was agreed that providers would share information about the welcome packs/ learner handbooks, as a convenient and inexpensive way to proceed.

GS presented information about the latest developments with the Centre's website. He will release the address of the draft website before long in order to invite comments.

10. Matters for the attention of the National Resource Panel

None.

11. Events

- Iaith ar Waith, Coleg Llandrillo - 21 January 2009, - an initiative to normalise the Welsh language amongst students in a variety of vocational areas.

12. A.O.B.

None.

13. Date of the Next Meeting

Wednesday, 25 March 2009, in Madog Room, Coleg Llandrillo at 1.30 pm.